**TRAFNIDIAETH CYMRU**
**TRANSPORT FOR WALES**

**Dyddiad cyhoeddi:** 14 Medi 2021

## Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

**Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:**

> *"O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, allwch chi ddweud wrthyf faint o staff y mae Trafnidiaeth Cymru yn eu cyflogi ac allan o'r staff hyn faint ohonynt sy'n siarad Cymraeg."*

**Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydym ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:**

Cyfanswm nifer staff Trafnidiaeth Cymru (yr is-gwmni nid-er-elw sy'n eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru) yw 534 fel y mae heddiw. Cofiwch fod y nifer hwn yn cynyddu bob wythnos.

Mewn perthynas â nifer y staff sy'n siarad Cymraeg; ar hyn o bryd, mae'r wybodaeth hon yn cael ei darparu gan staff yn wirfoddol yn unig, ac nid ydym yn cadw'r wybodaeth hon mewn modd y gellir rhoi adroddiad ar y sefyllfa ar ein systemau. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i fynd i'r afael â hyn drwy ddiweddaru ein system Adnoddau Dynol i gynnwys maes y gellir ei ddiweddaru, y gofynnir i'r holl staff ei gwblhau erbyn diwedd mis Medi 2021. Er nad yw'r wybodaeth hon ar gael ar hyn o bryd, mae'n debygol y byddwn yn gallu darparu'r wybodaeth hon o ganol mis Hydref 2021 ymlaen pe bai cais yn cael ei wneud am wybodaeth o'r fath.

[Sylwer: Nid yw gwybodaeth sy'n ymwneud â Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig ('Gweithredwr Dewis Olaf' Llywodraeth Cymru a sefydlwyd ym mis Chwefror 2021 i ymgymryd â'r gwaith o reoli masnachfraint Cymru a'r Gororau o ddydd i ddydd yn lle KeolisAmey) wedi cael ei chynnwys yma, gan na ofynnwyd amdani.]

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi.

Yn gywir,

**Trafnidiaeth Cymru**

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".